



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 Rhif 2568 (Cy.226)

2008 No. 2568 (W.226)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Treuliau Teithio a
Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2)
2008

The National Health Service
(Travelling Expenses and
Remission of Charges) (Wales)
(Amendment) (No.2) Regulations
2008

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau").

These Regulations further amend the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Wales) Regulations 2007 ("the principal Regulations").

Mae'r prif Reoliadau'n darparu fod pobl sydd naill ai'n cael budd-daliadau gwladwriaeth penodol neu sydd ar incwm isel yn cael peidio â thalu ffioedd penodol, ac yn cael ad-daliad am ffioedd penodol, sef ffioedd a fyddai'n daladwy fel arall o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac yn cael taliad am dreuliau teithio sy'n cael eu hysgwyddo wrth sicrhau rhai o wasanaethau'r GIG ("treuliau teithio GIG").

The principal Regulations make provision so that people who are either in receipt of certain state benefits or who are on a low income are able to obtain the remission or repayment of certain charges which would otherwise be payable under the National Health Service (Wales) Act 2006 ("NHS charges") and the payment of travelling expenses incurred in obtaining certain NHS services ("NHS travelling expenses").

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a oes gan berson hawl i beidio â thalu taliadau GIG a thalu treuliau teithio GIG, defnyddir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987.

In calculating a person's resources and requirements under the principal Regulations in order to establish whether a person can claim entitlement to the remission of NHS charges and the payment of NHS travelling expenses, a modified version of the Income Support (General) Regulations 1987 is applied.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "teulu" ("family") yn Rheoliad 2 i'r prif Reoliadau ac yn diwygio rheoliad 5 (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael ad-daliad llawn) i ddarparu y bydd gan berson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm hawl i gael ad-daliad llawn o daliad GIG a thaliad llawn o dreuliau teithio GIG heb fod angen iddo hawlio taliad neu ad-daliad o'r fath.

These Regulations amend the definition of "family" in regulation 2 of the principal Regulations and amend regulation 5 (entitlement to full remission and payment) to provide that a person who is receiving income-related employment and support allowance will be entitled to full remission of an NHS charge and the full payment of NHS travelling expenses without needing to make a claim for such payment or remission.

Maent hefyd yn diwygio testun Cymraeg y prif Reoliadau i fewnosod yn nhestun Cymraeg rheoliad 2 (dehongli) y diffiniad o "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm" ac i gyfeirio at y lwfans hwn yn nhestun Cymraeg is-baragraff (d) o reoliad 5(1) (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn).

They also amend the Welsh text of the principal Regulations to insert into the Welsh text of regulation 2 (interpretation) the definition of "income-related employment and support allowance" and to make reference to this allowance in the Welsh text of subparagraph (d) of regulation 5(1) (entitlement to full remission and payment).

2008 Rhif 2568 (Cy.226)

2008 No. 2568 (W.226)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Treuliau Teithio a
Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2)
2008

The National Health Service
(Travelling Expenses and
Remission of Charges) (Wales)
(Amendment)(No.2) Regulations
2008

Gwnaed 1 Hydref 2008
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 2 Hydref 2008
Yn dod i rym 27 Hydref 2008

Made 1 October 2008
*Laid before the National
Assembly for Wales* 2 October 2008
Coming into force 27 October 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 130, 131, 132 and 203 (9) and (10) of the National Health Service (Wales) Act 2006(1) hereby make the following Regulations:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

Title, commencement and application and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 a deuant i rym ar 27 Hydref 2008.

1.—(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Wales) (Amendment)(No.2) Regulations 2008 and they come into force on 27 October 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) 2007(2).

(3) In these Regulations "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Wales) Regulations 2007(2).

(1) 2006 p.42.

(2) O.S. 2007/1104 (Cy.116) ("y Rheoliadau"); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1480 (Cy.153) a 2008/1879 a fewnosododd y diffiniad o "income-related employment and support allowance" yn nhestun Saesneg rheoliad 2 ac a ychwanegodd y geiriau "income-related employment and support allowance" i destun Saesneg rheoliad 5(1)(d) o'r Rheoliadau.

(1) 2006 c.42.

(2) S.I. 2007/1104 (W.116) ("the Regulations"); relevant amending instruments are S.I. 2008/1480 (W.153) and 2008/1879 which inserted the definition of "income-related employment and support allowance" into the English text of regulation 2 and added the words "income-related employment and support allowance" to the English text of regulation 5(1)(d) of the Regulations.

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli) fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "teulu" ("*family*"), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) yn rheoliad 5(1)(ch) mewn perthynas â pherson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi y mae iddo'r ystyr sydd iddo yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Lwfans Cyflogi a Chefnogi 2008(1)".

(3) Yn y testun Cymraeg, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm" ("*income-related employment and support allowance*") yw lwfans seiliedig ar incwm o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (lwfans cyflogi a chefnogi)(2)".

Diwygio rheoliad 5 o'r prif Reoliadau

3.—(1) Diwygir rheoliad 5 (1) o'r prif Reoliadau (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

"(bb) sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm;".

(3) Yn nhestun Cymraeg is-baragraff (d) ar ôl "lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm" mewnosoder "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm".

Amendment of regulation 2 of the principal Regulations

2.—(1) Regulation 2 of the principal Regulations (interpretation) is amended as follows.

(2) In the definition of "family", after sub-paragraph (a), insert—

"(aa) in regulation 5(1)(d) in relation to a person who is receiving income-related employment and support allowance it has the meaning given in regulation 2 of the Employment and Support Allowance Regulations 2008(1)".

(3) In Welsh text, in the appropriate place in the alphabetical order insert the following definition—

"lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm" ("*income-related employment and support allowance*") yw lwfans seiliedig ar incwm o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (lwfans cyflogi a chefnogi)(2)".

Amendment of regulation 5 of the principal Regulations

3.—(1) Regulation 5 (1) of the principal Regulations (entitlement to full remission and payment) is amended as follows.

(2) After sub-paragraph (b) , insert—

"(bb) is receiving income-related employment and support allowance;".

(3) In the Welsh text of sub-paragraph (d) after "lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm" insert "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm".

(1) O.S. 2008/794.

(2) 2007 c.7.

(1) S.I. 2008/794.

(2) 2007 p.7.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

1 Hydref 2008

1 October 2008

©[®] Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 2568 (Cy.226)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd
Gwladol (Treuliau Teithio a
Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2)
2008

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2008 No. 2568 (W.226)

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

The National Health Service
(Travelling Expenses and
Remission of Charges) (Wales)
(Amendment) (No.2) Regulations
2008